

# Beth yw YNNI AMGEN?

# Beth yw Carbon Deuocsid?



Yn ogystal â bod yn un o'r nwyon tŷ gwydr pwysicaf, ceir hyd i garbon deuocsid ym mhobman o'n cwmpas: yn yr aer a fewnanadlwn; yn yr aer a anadlwn allan; mewn diodydd meddal; mewn cacennau, sy'n codi o ganlyniad i'r carbon deuocsid a gynhyrchir gan bowdr pobi; a phan y caiff cyfansoddion organig megis paraffin, papur, pren neu betrolewm eu llosgi.

Caiff hefyd ei ddefnyddio ar ffurf hylif mewn diffoddwyr tân ac fel oerydd yn y diwydiant bwyd (er enghraifft i storio a chludo hufen iâ). Mewn crynodiadau uchel, gall CO2 fod yn beryglus i bobl ac i anifeiliaid eraill, ond dyma hefyd yw ffynhonnell bywyd: yn ystod ffotosynthesis, mae planhigion yn defnyddio CO2 a golau i gynhyrchu siwgr, starts, braster a phroteinau, yn ogystal â'r ocsigen sydd ei angen i oroesi.

Mae'r holl ynni rydym yn ei ddefnyddio yn ein cartrefi yn cyfrannu tuag at chwarter y carbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau ym Mhrydain!

Sut rydym yn defnyddio ynni yn ein cartrefi?

| Yn y gegin | Yn yr ystafell wely | Yn y lolfa |
|---|---|---|
| | | |

# Gwastraff Llwyr!

Rhowch y gosodiadau isod yn y golofn gywir.

| Gwastraffu | Arbed |
|---|---|
| | |

- Cadw'r cyfrifiadur ymlaen
- Diffodd golau wrth adael ystafell
- Llenwi'r bath
- Defnyddio bylbiau arbed ynni
- Cael cawod
- Troi'r gwres canolog i lawr un radd
- Gadael y teledu yn y modd segur ('stand by')

# Darllenwch ac argraffwch yr adroddiadau isod.

Lliwiwch y ffeithiau'n goch.
Lliwiwch barn pobl yn wyrdd.

**Diffodd Golau – Y ffordd ymlaen:**
*10fed o Fedi 2008*
http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_7600000/newsid_7607600/7607632.stm

**Cynllun i Ail-gynnau Goleuadau Stryd ym Mhowys:**
*24ain o Hydref 2012*
http://www.bbc.co.uk/newyddion/20032042

**Goleuadau stryd 'wedi eu diffodd er mwyn arbed arian' gan gynghorau**
*22 Dec 2014*
http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-30569215

# Gwyliwch y ffilm fer hon



**Diffodd Golau**: https://www.youtube.com/watch?v=oeJ8epQeOzE

# Sut gallwn ni fod yn fwy gwyrdd?

# Beth fydd yn digwydd os na wnawn ni ddim byd?